

PLANT A PHOBL IFANC



Dydd Mercher
- 6 Mawrth -

Rydym yn byw mewn amser na fu ei fath o'r blaen lle mae'r pwysau ar bobl ifanc yn real ac yn cynyddu. Gall bywyd fod yn gymhleth wrth i'n pobl ifanc weld gymaint drwy gyfryngau cymdeithasol, cymdeithas sy'n mynd yn fwy seciwlar a system addysgu sy'n rhoi pwysau arnynt. Dylem weddio yn arbennig dros ein pobl ifanc a'u rhieni, athrawon a gofalwyr sy'n gofalu amdanynt.

Mae'n dda cofio nad yw'r trafferthion a welwn yn mynd i atal gwaith Duw, yn wir gallant ddod a phobl yn agosach ato. Pan fyddwn ar ein mwyaf isel y mae Duw yn aml yn torri i mewn.

"Mae'n destun diolchgarwch mawr ein bod yn gweld gymaint o'n plant a'n pobl ifanc yn cael clywed yr efengyl. Mae rhieni a theuluoedd yn profi gwasgedd cynyddol, ac felly mae angen gweddio am ddoethineb wrth iddynt geisio dysgu eu plant am bethau Duw. Gweddïwch os gwelwch yn dda am ein plant a'n gweithwyr ieuenticid, gan ddiolch i Dduw fod gymaint wedi archebu lle ar wersylloedd yr haf yn barod."

Andy Pitt
Park Baptist Church, Merthyr



Hyffordda blentyn ar ddechrau ei daith, ac ni thry oddi wrthi pan heneiddia.

Diarhebion 22:6

PWYNTIAU GWEDDI

DIOLCHGARWCH A MAWL

Molwch Dduw gan ei fod yn medru achub unrhywun – dim ots am eu hoed, cefndir na'u gallu. Diolchwch i Dduw am yr holl waith a gaiff ei wneud yn yr ysgolion a thrwy waith ieuenticid eglwysi yng Nghymru.

YMATEB AC YSTYRIED

Ydym ni yn ymwybodol o'r pwysau sydd ar ein plant a phobl ifanc? Ydym ni yn gweddio ac yn rhoi cymorth iddynt yn ein heglwysi?

GOFYN

Gofynnwch i Dduw fendithio ei waith ymhlith plant a phobl ifanc gan ddangos ei gariad iddynt a rhoi gobaith a'r gallu iddynt i weld heibio'r pwysau mawr. Gweddïwch am athrawon sy'n Gristnogion ac am rieni a gweithwyr ieuenticid – gweddïwch y byddant yn ddoeth a sensitif ond yn gryf i ddatgan y rhyddid a geir yn Iesu.

ENGHREIFFTIAU O GYMRU

Mae Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed yng Nghymru (CAMHS) o dan bwysau cynyddol. Rhwng 2010 a 2014 gwelwyd cynnydd o 100% yn y defnydd o'r gwasanaeth. Mae adroddiadau yn awgrymu fod y patrwm hwn yn parhau.

Mae Eleri Trythall yn weithiwr ieuenticid Cristnogol yn ardal Penllŷn. Caiff ei chyflogi gan Trobwynt sy'n elusen a lansiwyd gan nifer o Gristnogion lleol. Mae nifer o weithwyr tebyg o gwmpas Cymru.